Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Adroddiad Gwaddol y Chweched Senedd:
# Gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Mawrth 2026

## 1. Cyflwyniad

Fe wnaethom ni edrych ar gydraddoldeb, hawliau dynol, cyfiawnder cymdeithasol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol mewn cyfnod pan fo cynnydd gyda phob un o’r rhain wedi dod o dan fygythiad o sawl cyfeiriad. Mae ein hadroddiad terfynol yn edrych yn ôl ar gyfnod cythryblus rhwng mis Mehefin 2021 a mis Ebrill 2026 pan fo nifer o argyfyngau fel y rhyfel yn Wcráin, costau byw, yr argyfwng hinsawdd a rhyfel yn y Dwyrain Canol wedi ansefydlogi gwleidyddiaeth, ac wedi cael effaith negyddol ar lawer o agweddau ar ein bywydau pob dydd.

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar ein gwaith yn ystod y cyfnod hwn ac yn edrych ymlaen at y materion a allai fod yn haeddu ystyriaeth bellach yn y dyfodol.

**2.** Diolchwn i bawb a fu'n ymwneud â ni dros y pum mlynedd diwethaf, am eich cyfraniad – mae ein gwaith yn dibynnu ar eich gwybodaeth, eich angerdd a'ch ymrwymiad ac mae wedi bod yn anrhydedd cydweithio tuag at Gymru decach.

# 2. Ein cylch gorchwyl

**3.** Mewn cam arloesol o ran gweithdrefnau, cawsom ein grymuso i edrych ar unrhyw bwnc o safbwynt cydraddoldeb, hawliau dynol, cyfiawnder cymdeithasol a gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Cynlluniwyd ein cylch gorchwyl i fod yn wahanol ac i adlewyrchu natur drawsbynciol llawer o'r materion ynddo.

**4.** Cytunwyd yn gynnar ar rai amcanion strategol sef:

1. defnyddio ystyriaethau o ran cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, a nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol fel canllaw a chymhwyso safbwynt "Cymru decach" wrth drafod y materion hyn; a
2. hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol ledled y Senedd ac ymhlith ei Phwyllgorau.

**5.** Rhoddodd y dull strategol hwn fframwaith cyffredinol a'n helpodd i benderfynu beth i'w flaenoriaethu a phryd i wneud hyn.

**6.** Roedd ein cylch gorchwyl yn ein galluogi i weithio'n wahanol a rhoddodd werth a ffocws ychwanegol i'n gwaith craffu. Fodd bynnag, roeddem yn aml yn rhwystredig gan y diffyg cydgysylltu a'r penderfyniad i weithio'n ynysig a oedd yn amlwg yng ngwaith Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb, a hynny er gwaethaf ymdrechion rhai Gweinidogion ar adegau.

**Argymhelliad 1.** Nodwn fod yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd wedi argymell diwygio'r Rheolau Sefydlog i "fandadu Pwyllgor Cydraddoldeb pwrpasol neu Bwyllgor Cydraddoldeb gyda chylch gorchwyl neu

swyddogaethau penodol mewn perthynas â goruchwylio cydraddoldebau."[1] Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn ac yn argymell ymhellach y dylai ei gylch gorchwyl gynnwys gallu ystyried unrhyw bwnc o safbwynt cydraddoldeb, hawliau dynol, cyfiawnder cymdeithasol a gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.


## 3. Crynodeb o'n gwaith a'n cyflawniadau

**7.** Fe wnaethom ni ymdrin â pholisïau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'n cylch gorchwyl. Roedd y rhan fwyaf o'n gwaith yn cynnwys ymchwiliadau polisi a chwblhawyd cyfanswm o 18.




**8.**

**9.** Roedd ein rôl wrth graffu ar ddeddfwriaeth yn fwy cyfyngedig, gan mai dim ond dau Fil a gyfeiriwyd atom.[2]




**10.** Fe wnaethom ni graffu ar bump o gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru, a chynhaliwyd pum gwrandawiad cyn penodi gydag ymgeiswyr a ffefrir ar gyfer uwch benodiadau cyhoeddus.

**11.** Yn dilyn yr ymrwymiadau a wnaed i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru ar ôl Brexit, fe wnaethom ni ymrwymo i fonitro gweithrediad cytundebau ar hawliau dinasyddion a chadw llygad barcud ar weithrediad y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS). Fe wnaethom ni gyhoeddi cyfanswm o 8 adroddiad monitro a dau adroddiad blynyddol a arweiniodd at ein hadroddiad terfynol 'Sefydlog ond heb fod yn saff?' a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2024. Fe wnaethom hefyd drafod ein gwaith monitro ar sawl achlysur gyda swyddogion o sefydliadau'r

[1] Senedd i Bawb: Adroddiad ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, 2026, tudalen 90
[2] Y rhain oedd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru).

Undeb Ewropeaidd a gwledydd eraill Ewrop yn ystod ymweliadau swyddogol â Chymru.

## Gwaith craffu ar yr ymchwiliadau




**12.** Roedd ein 18 ymchwiliad thematig yn ymdrin â rhai o'r prif heriau strwythurol sy'n effeithio ar gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol gan gynnwys yr argyfwng costau byw, tlodi plant, trais yn erbyn menywod, anghydraddoldeb hil a rhywedd, hawliau pobl anabl, tlodi tanwydd, cydlyniant cymdeithasol a phwysau ar gyllidebau'r trydydd sector. Ond, er mor eang oedd cwmpas ein gwaith, roedd y rhestr o syniadau posibl ar gyfer ymchwiliadau yn parhau i fod yn fwy na'r nifer y gallem obeithio eu cyflawni o fewn yr amser a'r adnoddau oedd ar gael i ni. Fe wnaethom ni ystyried yn ofalus yr angen i flaenoriaethu a gobeithio bod pob ymchwiliad wedi bod yn ddylanwadol mewn rhyw ffordd.

## Pwysigrwydd dilyniant

**13.** Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd gwneud gwaith dilynol ar argymhellion. Roeddem wedi gallu mynd i'r afael â gwaith dilynol ffurfiol ar sawl un o'n hymchwiliadau cynnar.

**14.** Dyled a'r pandemig: cafodd yr ymchwiliad cyntaf a gwblhawyd gennym ei ysbrydoli gan ymchwil gan Sefydliad Bevan ac yn dilyn hyn, fe wnaethom ni gynnal ymchwiliad byr yn 2023 i ddyled ac effeithiau costau byw cynyddol. Wrth i'r argyfyngau geo-wleidyddol presennol fygwth ton arall o chwyddiant, efallai y bydd yn amserol i bwyllgor olynol edrych eto ar rai o'r materion hyn. Fe wnaeth yr ymchwiliad hwn gadarnhau bod manteision i ddefnyddio ymchwil academaidd sy'n bodoli eisoes, lle bo'n briodol, er mwyn archwilio polisi a pherfformiad y llywodraeth.

**15.** Y Rhaglen Cartrefi Clyd: wrth ymateb i adroddiad Archwilio Cymru ar effeithlonrwydd y rhaglen, mabwysiadwyd dull 'pwyllgor cyfrifon cyhoeddus' i graffu ar gryfderau a gwendidau strategaeth y llywodraeth o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Edrychodd ein gwaith dilynol yn 2024 ar y sefyllfa barhaus o ran tlodi tanwydd yn ogystal ag asesu rhaglen olynol y Rhaglen Cartrefi Clyd yn erbyn ein hadroddiad gwreiddiol.

**16.** Gofal plant a rhieni sy’n gweithio: roedd agweddau ar yr ymchwiliad hwn yn perthyn i gylchoedd gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Economi a Materion Gwledig, aderbyniodd aelodau'r pwyllgorau hynny ein gwahoddiad i gymryd rhan. Roedd natur drawsbynciol y gwaith hwn yn golygu bod llawer o agweddau ar yr ymchwiliad gwreiddiol a’r gwaith dilynol wedi estyn yn naturiol i feysydd eraill o'n gwaith, a’r mwyaf nodedig oedd strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i’r afael â thlodi plant.

**Casgliad 1.** O'r tair enghraifft hyn, y prif wersi i'n pwyllgor olynol yw:

- bod gwaith dilynol yn bwysig ond gall bod llai o gyfle i wneud y gwaith yn effeithiol mewn senedd bedair blynedd;
- gall defnyddio tystiolaeth gyfredol, er enghraifft, gwaith ymchwil diduedd a gwreiddiol, neu ymchwiliadau Swyddfa Archwilio Cymru, fel sail ar gyfer gwaith ymchwil, wella effeithiolrwydd gwaith craffu unrhyw bwyllgor yn sylweddol, os a phan fydd yn briodol;
- bod cydgysylltu traws-bwyllgor yn bwysig ac y dylid annog cyfleoedd i gymryd rhan mewn meysydd craffu ar y cyd

**Argymhelliad 2.** O ystyried yr argyfyngau geo-wleidyddol presennol, dylai ein Pwyllgor olynol ystyried edrych ar ddyled a chostau byw yn gynnar yn y senedd newydd.

## Gwaith craffu amserol

**17.** Mae amseroldeb yn ffactor pwysig arall y gwnaethom ofalu ei gadw mewn cof fel y dangoswyd gan yr ymchwiliadau a ganlyn.

**18.** Gwasanaethau Tân ac Achub: fe wnaethom ni ohirio gwaith lle nad oedd amser mor bwysig er mwyn ymateb yn gyflym i Adolygiad Morris o ddiwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Fe ddaethom ni i’r casgliad bod achos cryf dros wneud hynny o ystyried difrifoldeb y canfyddiadau a’r budd cyhoeddus clir. Roedd ein dull yn sicrhau bod mwy o dryloywder ac atebolrwydd trwy gydol y broses.

**19.** Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod ymyrraeth Llywodraeth Cymru i benodi pedwar Comisiynydd i roi goruchwyliaeth strategol o Wasanaethau Tân

ac Achub De Cymru wedi trawsnewid agweddau o'i ddiwylliant a'i berfformiad.[3] Mae diwygio gwasanaethau tân ac achub yn yr hirdymor, yn enwedig mewn perthynas â strwythurau, yn parhau i fod yn bwnc penagored.

**20.** Roedd ein hymchwiliad i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn effeithiol gan iddo ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch syrffed ar arolygon drwy ganolbwyntio ar gyflawni polisïau cyfredol yn hytrach na nodi problemau a deimlwyd y byddai'n ailadrodd ymarferion blaenorol yr oedd dealltwriaeth dda amdanynt eisoes.

**21.** Roedd ein gwaith ar y bwlch cyflogaeth anabledd yn enghraifft arall o sut y gall amseru fod yn bwysig, ac ar ôl oedi sawl gwaith, roeddem wrth ein bodd yn gweld y Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl yn cael ei gyhoeddi yn fuan ar ôl ein gwaith craffu ni. Mae monitro'r gwaith gweithredu yn hanfodol os yw am fodloni disgwyliadau pobl anabl.

**22.** Cynhaliwyd ein hymchwiliad i gydlyniant cymdeithasol wedi haf o brotestiadau treisgar mewn rhai rhannau o'r DU. Roedd yn ymdrin â rhai o'r prif ysgogwyr ac yn archwilio'r camau brys y mae angen eu dilyn er mwyn meithrin ymdeimlad o gymuned ac adnewyddu gwerthoedd democrataidd. O ystyried difrifoldeb y bygythiad, roeddem yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ymateb yn gyflym iawn i sefydlu Grŵp Arbenigol yn unol â'n hargymhelliad 1.[4]

## Pwysigrwydd tystiolaeth a data

**23.** Thema a oedd bron yn un barhaus oedd yr angen i wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth i asesu effaith polisïau ar gydraddoldeb. Fe wnaethom ni bwyso dro ar ôl tro ar weinidogion ynghylch tryloywder ac ansawdd asesiadau o effaith ar gydraddoldeb (yn enwedig o ran y Gyllideb) ac fe wnaethom ni gymryd diddordeb brwd yng ngwaith yr unedau data cydraddoldeb.

**24.** Fe wnaethom ni groesawu sefydlu gwahanol unedau data cydraddoldeb ac rydym wedi nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y senedd hon.[5] Fodd bynnag, hoffem weld ymdrech fwy penderfynol ar draws y llywodraeth i wella'r

[3] Papur i'w nodi 2.7, gohebiaeth gan Fin Monahan, Prif Swyddog Tân, Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru ynghylch cynnydd, 16 Mawrth 2026
[4] Gohebiaeth i'r Cadeirydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ynglŷn ag adroddiad y Pwyllgor ar gydlyniant cymdeithasol - 13 Hydref 2025
[5] Yr Unedau Data Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Adroddiadau Cynnydd, Medi 2024, Mehefin 2025

gwaith o lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb.

**Argymhelliad 3.** Dylai gwella'r broses o lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth fod yn nod allweddol i Lywodraeth nesaf Cymru a dylai ein pwyllgor olynol barhau i fonitro gwaith yr Unedau Data a rôl data cydraddoldeb wrth lunio penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru.

## Profiadau bywyd

**25.** Roedd clywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion a phobl â phrofiadau bywyd yn rhan hanfodol o'n gwaith. Fel rhan o'n hymchwiliad i drais ar sail rhywedd, fe wnaethom ni sefydlu Grŵp Cynghori o oroeswyr i gynnig her adeiladol yn ystod cyfnodau allweddol yr ymchwiliad, gan gynnwys casglu eu barn i lywio cwestiynau i weinidogion ac i lunio argymhellion. Roedd eu tystiolaeth bwerus yn allweddol wrth lunio hynt yr ymchwiliad a'r dull a fabwysiadwyd gan yr Aelodau.

**Argymhelliad 4.** Dylai ein pwyllgor olynol sicrhau bod casglu barn pobl â phrofiadau bywyd yn parhau i fod yn nodwedd o waith pwyllgor lle bo hynny'n briodol. Dylid rhoi amser i ystyried y dull ymgysylltu o'r cychwyn cyntaf, yn ddelfrydol yn ystod y cyfnod cwmpasu.

## Meysydd y mae angen eu hystyried ymhellach

**26.** Mae pob mater yn bwysig i'r bobl yr effeithir arnynt ganddo. Fodd bynnag, credwn fod yn rhaid i'r Senedd nesaf edrych ar y meysydd a ganlyn fel blaenoriaeth.

**27.** Yng ngoleuni'r rhagolygon ar gyfer prisiau ynni byd-eang, dylai costau byw sy'n codi a'r cysylltiad rhwng hyn a thlodi, yn enwedig tlodi plant, fod yn faes blaenoriaeth i'n pwyllgor olynol. Pwysleisiodd ein gwaith ar y strategaeth ddrafft tlodi plant yn benodol, rôl targedau a mesurau wrth lunio polisi ac wrth farnu effeithiolrwydd ymyriadau.

**28.** Trais ar sail rhywedd: roeddem yn siomedig gan y diffyg cynnydd a wnaed o ran argymhellion yr ymchwiliad hwn. Dim ond ychydig iawn o gamau pendant a gwybodaeth newydd oedd yn y diweddariad diwethaf gan Lywodraeth Cymru ac

hyd yma, nid ydym wedi gweld y "dull llywodraeth gyfan" yr oeddem yn galw amdano yn ein hadroddiad.

**29.** Datgelodd sawl ffrwd waith yn yr ymchwiliad cyffredinol i'r "profiadau yn y system cyfiawnder troseddol" ddiffygion amlwg yn y trefniadau presennol. Un enghraifft o'r fath oedd ein hymchwiliad undydd a edrychodd ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ym maes cyfiawnder ieuenctid. Cawsom ein siomi gan ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion ac felly fe wnaethom ni ymchwilio i'r mater ymhellach trwy ohebiaeth a gwaith chraffu parhaus. Mae angen mwy o gynnydd o hyd, ond mae'r enghraifft hon yn dangos pwysigrwydd rhoi pwysau ar weinidogion i weithredu lle mae tystiolaeth glir o'r angen.

**30.** Mae'r gyfres cyfiawnder troseddol hefyd yn tynnu sylw at yr angen am fwy o ymchwil a gwaith paratoi, yn enwedig o ystyried y canfyddiadau ymchwil ar gyfer y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, sef mai dim ond 3 o'r 78 o argymhellion Comisiwn Thomas sydd wedi'u cyflawni ers 2019.

**31.** Roeddem yn gefnogol o Lasbrint Cyfiawnder Llywodraeth Cymru ond roeddem yn hynod siomedig o ddarganfod bod ei weithredu wedi cael ei rwystro gan Lywodraethau'r DU yn olynol. Roeddem wedi gobeithio y byddai hyn yn newid yn dilyn newid yn y blaid sy'n llywodraethu'r DU, fodd bynnag, dangosodd y diffyg cynnydd gyda materion fel creu'r ganolfan breswyl i ferched, a'n sesiwn gyda'r Arglwydd Timpson fel arall.[6] Mae'r sefyllfa hon yn un annerbyniol ac mae'n tynnu sylw at gamweithredu ehangach ac anghydbwysedd pŵer yn y berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y materion hyn.

**32.** Rydym yn gresynu at y diffyg gweledigaeth sy'n golygu bod trywydd y maes polisi hwn yn parhau i fod yn aneglur tua'r dyfodol, a nodwn mai pobl Cymru sy'n debygol o ddioddef fwyaf o'r system fel y mae.

**33.** Rhaid i'r Senedd nesaf roi ystyriaeth frys i'r materion hyn a dwyn Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU i gyfrif. Fe wnaethom ni glywed tystiolaeth glir bod Cymru dan anfantais oherwydd y trefniadau presennol ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i dderbyn yr angen am weledigaeth glir, gydlynol sy'n sicrhau bod Cymru yn gydradd â rhannau eraill o'r DU ac sy'n seiliedig ar barch i'r ddwy ochr.

[6] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru: Sesiwn i graffu ar waith Gweinidogion—sesiwn 2, 14 Gorffennaf 2025; Cofnod y Trafodion, paragraffau 93 i 113 o'r cyfarfod ar 2 Mawrth 2026

**34.** Mae'r cysyniad o Hawliau Dynol yn cael ei fygwth mewn ffyrdd digynsail. Rydym yn siomedig bod gweithredu'r adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn faes arall lle nad oedd y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r disgwyliadau. Rydym yn cydnabod cymhlethdod y rhwystrau a wynebir ond yn parhau i fod yn siomedig gan y diffyg cynnydd.

**35.** Rydym wedi gwerthfawrogi ein perthynas adeiladol â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ystod y Senedd hon. Fodd bynnag, nodwn ei fod wedi canfod bod Llywodraeth Cymru yn ddiffygiol o ran ei chydymffurfiaeth â dyletswyddau'r sector cyhoeddus o ran cydraddoldeb. Dylai'r Senedd nesaf ystyried edrych ar y mater hwn, a chydymffurfiaeth yn fwy cyffredinol, rywbryd yn ystod y senedd nesaf.

**Argymhelliad 5.** Dylai ein pwyllgor olynol yn y Senedd nesaf nodi'r meysydd dan sylw ac ystyried sut y gall fwrw ymlaen â'r meysydd hyn yn ei flaenraglen waith.

## Craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**36.** Rydym yn credu'n gryf bod rhoi cenedlaethau'r dyfodol yn yr un portffolio â chydraddoldebau wedi bod yn fuddiol. Fel rhan o'n gwaith, cynhaliwyd gwaith craffu rheolaidd gyda'r Comisiynwyr presennol a'r rhai blaenorol ac fe aethom ni ati i wneud gwaith craffu hanfodol ar ôl deddfu. Rydym yn ddiolchgar iddynt am natur adeiladol y berthynas.

**Argymhelliad 6.** Dangosodd ein hymchwiliad i waith craffu ar ôl deddfu fod amcanion ac egwyddorion y Ddeddf yn bwysicach nag erioed. O ran gosod maes cenedlaethau'r dyfodol yn uwch ar yr agenda, rydym yn argymell y dylai'r Senedd nesaf unwaith eto enwebu pwyllgor arweiniol y mae cyfrifoldeb am y Ddeddf a chenedlaethau'r dyfodol yn ei gylch gorchwyl.

## Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)

**37.** Dangosodd ein gwaith ar y cynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr UE natur hirdymor y materion sy'n wynebu dinasyddion yr UE a arhosodd yng Nghymru ar ôl Brexit. Fel y nodwyd yn ein hadroddiadau, rydym yn parhau i bryderu y gallai dinasyddion yr UE wynebu'r un camweddau cyfiawnder ag a

ddigwyddodd i genhedlaeth Windrush.[7] Roedd ein hadroddiad olaf yn amlygu'r angen am ymrwymiadau parhaus gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu cefnogaeth a chydweithio'n well ar ddata a gwaith craffu gyda phwyllgor olynol.

**Argymhelliad 7.** Dylai ein Pwyllgor olynol ystyried parhau â'n gwaith a chadw'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar yr agenda yn y Seithfed Senedd.

## Bil Iaith Arwyddion Prydain (IAP) (Cymru)

**38.** Roedd un o'n darnau mawr olaf o waith hefyd yn un o'r rhai mwyaf gwerth chweil. Fel y pwyllgor â chyfrifoldeb am graffu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fe wnaethom dorri tir newydd o ran darpariaeth IAP. Roedd hyn yn cynnwys derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad mewn IAP, cynnig cyfieithiadau ar y pryd i IAP ar gyfer yr holl drafodion perthnasol ar y Bil a chreu canllawiau esboniadol i'r broses ddeddfwriaethol mewn IAP. Ategwyd y rhain yn rheolaidd gan ddiweddariadau drwy gyfrwng fideo byr i sicrhau y gallai defnyddwyr IAP ddilyn taith y Bil yn eu dewis iaith.

**39.** Fe wnaeth gweithio gyda'r gymuned o ddefnyddwyr IAP yng Nghymru helpu i lunio ein hagwedd at y broses graffu hon ac fe wnaethom ni ddysgu llawer o'n profiadau. Fodd bynnag, fe'n hatgoffwyd hefyd o werth ymgysylltu â chymunedau i helpu i lunio polisïau a gweithdrefnau cynhwysol.

- Dylai'r Senedd nesaf roi ystyriaeth bellach i'r mater ynghylch darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain a hygyrchedd ei phrosesau a'i gweithdrefnau yn fwy cyffredinol. Dylai ein pwyllgor olynol fonitro'r cynnydd o ran gweithredu Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) gan gynnwys:
- bwrw ymlaen â'r ymrwymiadau a wnaed i gynyddu nifer y cyfieithwyr a'r dehonglwyr IAP fel y nodir yn adran 3(2) o'r Ddeddf;

[7] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Yn sefydlog ond heb fod yn saff?, Tachwedd 2025

dal Llywodraeth Cymru i gyfrif am gynnydd gydag argymhellion Map Llwybrau IAP, yn enwedig mewn perthynas ag anghydraddoldeb canlyniadau i blant byddar rhieni sy'n clywed.[8]

[8] Llywodraeth Cymru, Map Llwybrau Iaith Arwyddion Prydain, 12 Chwefror 2026